# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 7 Chwefror 2001 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.20pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| (Cadeirydd) | |
| Edwina Hart | Gyr |
| (Gweinidog) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| (Dirprwy Weinidog) | |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Grp Llywodraeth Leol a Thai (eitem 3) |

| | |
|---|---|
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai (eitemau 3, 4 a 5) |
| Peter Harding | Y Gyfarwyddiaeth Tai (eitem 4) |
| Mike Harmer | Y Gyfarwyddiaeth Tai (eitem 5) |
| David A'Herne | Cyfarwyddwr Lleihau Torcyfraith Cymru (eitem 6) |
| Chris Burdett | Yr Is-adran Plant a Theuluoedd (eitem 7) |
| Alison Kitchener | Yr Is-adran Plant a Theuluoedd (eitem 7) |
| Y Cyng Bob Wellington | Ymddiriedolwr, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a Chadeirydd Ymgyrch Cymunedau'r Meysydd Glo (eitem 8) |
| Alan Wallace | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (eitem 8) |
| Gary Ellis | Rheolwr Cyllid, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (eitem 8) |
| Roger Bonehill | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Martin Stevenson | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau nac eilyddion.

**Eitem 2: Datganiadau o fuddiant**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Tom Middlehurst ei fod yn gyn Aelod o Gyngor Sir y Fflint ac yn gyn Arweinydd ar y Cyngor;
- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y cytunwyd yn y cyfarfod ar 13 Rhagfyr mai dim ond bob yn ail gyfarfod y byddai'r Gweinidog yn rhoi adroddiad ysgrifenedig o hyn allan. Gwahoddodd Edwina Hart i roi ei hadroddiad llafar cyntaf i'r Pwyllgor.

3.2 Dywedodd y Gweinidog fod dau awdurdod lleol (Sir y Fflint a Sir Ddinbych) wedi cyflwyno hawliadau interim o dan gynllun Bellwin. Cyhyd ag y ceid eglurhad ar eitemau yn y ddau hawliad, gobeithid gwneud taliadau interim yn fuan.

3.3 Dywedodd y Gweinidog hefyd fod awdurdodau lleol ledled Cymru yn wynebu costau cyfalaf sylweddol nad ydynt yn dod o dan gochl cynllun Bellwin. Yr oedd y Gweinidog dros yr Amgylchedd wedi cyhoeddi y byddai £1.5 miliwn ar gael i Gyngor Sir Ddinbych i helpu gyda'r gwaith o adfer Bwlch yr Oernant. Yr oedd awdurdodau lleol eraill a oedd yn wynebu costau cyfalaf sylweddol o ganlyniad i'r tywydd drwg wedi cyflwyno amcangyfrifon cost am y gwaith yn ei gyfanrwydd, ac yr oedd rhestr gwaith, wedi'i blaenoriaethu a'i chostio, i fod i ddod i law erbyn diwedd Chwefror. Ar ôl i'r costau hyn gael eu dadansoddi'n fanwl, byddid yn ystyried pa gymorth y gellid ei gynnig dros y tair i'r pum mlynedd nesaf.

3.4 Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor fod y setliad refeniw terfynol i lywodraeth leol, a gyhoeddwyd yn y cyfarfod llawn ar 6 Chwefror, wedi cael croeso cynnes gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3.5 Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor ei bod yn bwriadu cadw'r canllawiau ar drosglwyddo stoc tai yn ôl hyd nes y byddai adolygiad polisi'r Pwyllgor wedi'i gwblhau. Croesawai'r Aelodau y datblygiad hwn.

3.6 Yn olaf, dywedodd y Gweinidog ei bod yn sefydlu ymgyrch gyhoeddusrwydd ar y gwasanaeth Gofal a Thrwsio a fyddai'n dwyn sylw at y dolenni cyswllt rhyngddo a'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref. Cytunodd i ddarparu nodyn ar y trefniadau cyhoeddusrwydd yng nghyfarfod 28 Chwefror. Croesawai'r Aelodau y fenter hon, ac awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o annog pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

**Eitem 4: Mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio ym maes digartrefedd - Adolygiad o gyllid craidd: LGH-02-01 (p.1)**

4.1 Gwahoddodd y Gweinidog y Pwyllgor i nodi'r adolygiad y bwriedir ei gynnal i gyllid craidd mudiadau gwirfoddol yn unol ag Adran 180 Deddf Tai 1996. Yr oedd Cymorth i Fenywod yng Nghymru, Shelter Cymru a Chymdeithas Caer Las i gyd wedi derbyn cyllid craidd am ragor na phum mlynedd, gan y Swyddfa Gymreig i ddechrau ac yn fwy diweddar gan y Cynulliad Cenedlaethol. Priodol bellach oedd cynnal adolygiad trylwyr i'r gwasanaethau a gyflenwir a gwerth am arian. Yr oedd y mudiadau wedi'u hysbysu o'r penderfyniad hwn.

4.2 Yr oedd y Pwyllgor yn ymwybodol o’r gwaith gwerthfawr a wneir gan y tri mudiad. Mae gan bob un ohonynt ei rwydwaith gwirfoddolwyr ei hun sy’n darparu gwasanaethau i’r digartref. Cefnogai’r adolygiad arfaethedig, ond yr oedd yn awyddus na ddylid ei gamddehongli. Teimlai’r Aelodau y dylid ystyried yr adolygiad yn brofiad cadarnhaol a fyddai’n galluogi’r mudiadau gwirfoddol dan sylw i gael cydnabyddiaeth am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

4.3 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth. Cafwyd awgrym mai’r Pwyllgor ddylai gynnal yr adolygiad, er y teimlai eraill mai priodol fyddai i’r Gweinidog fwrw ymlaen ag ef, o ystyried ei chyfrifoldebau gweithredol. Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i’r Pwyllgor yn rheolaidd am hynt yr adolygiad.

**Eitem 5: Galw isel am dai cymdeithasol – Astudiaeth o farn tenantiaid:**

**LGH-02-01 (p.2)**

5.1 Dywedodd y Gweinidog fod y papur yn amlinellu prif ganfyddiadau prosiect ymchwil a gynhaliwyd gan yr Athro Alan Murie o Brifysgol Birmingham. Yr astudiaeth hon oedd y gyntaf yng Nghymru i ofyn i’r trigolion am eu barn am fywyd ar yr ystadau tai lleiaf deniadol a’r materion y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn gwella pethau. Cynigiai dystiolaeth holl bwysig am natur y dasg sy’n wynebu’r Cynulliad Cenedlaethol o ran adfywio tai cymdeithasol ac ailennyn ffydd y trigolion yn nyfodol hirdymor eu cartrefi a’u cymunedau, a’r taer angen am hynny.

5.2 Dywedodd y Gweinidog y byddai’n dosbarthu’r adroddiad yn eang ac yn trafod ei oblygiadau gyda phob awdurdod lleol a landlord cymdeithasol cofrestredig. Cyn mynd ati i gynnal y trafodaethau hynny, gwahoddodd sylwadau’r Pwyllgor ar grynodeb yr adroddiad.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai’r Pwyllgor yr adroddiad a theimlai ei fod yn codi cwestiynau pwysig yngln â thai cymdeithasol a’r newidiadau a wynebwyd dros y degawd diwethaf. Nodwyd bod yr adroddiad yn ymdrin ag ardal tair cymdeithas dai, yn ogystal ag ardal pedwar awdurdod lleol.
- Yr oedd pryder yngln â'r effaith a gâi rhai o’r materion a godwyd yn yr adroddiad ar y broses trosglwyddo stoc tai. Yn arbennig, tynnai’r adroddiad sylw at y ffaith bod trigolion yn ei chael hi’n anodd gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau’r landlord a chyfrifoldebau asiantaethau eraill. Teimlid y gallai trosglwyddo’r stoc tai i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig amlygu’r broblem hon ymhellach. Nodwyd bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu hannog i ddatblygu Cytundebau Tai Cymunedol, er y cydnabyddid mai darniog oedd y ddarpariaeth ar hyn o bryd.

- Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig bod landlordiaid yn helpu i gynnal sefydlogrwydd ystadau. Yr oeddynt yn pryderu yngln â'r farn sy'n bodoli ymysg trigolion hirdymor nad yw eu teyrngarwch yn cael ei wobrwyo a bod tenantiaid newydd yn cael eu trin yn well.
- Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor hefyd yngln â'r teimlad ymysg tenantiaid nad yw eu barn nhw yn cael ei hystyried yn werthfawr. Teimlid bod angen chwilio am ffyrdd newydd o gynnwys tenantiaid yn y gwaith o reoli eu hystadau. Dywedodd y Gweinidog fod canllawiau wedi'u cyhoeddi ar gyflwyno Compactau Cyfranogiad Tenantiaid, ynghyd â chyllid i helpu yn y gwaith o'u cyflwyno. Ymrwymodd i ddarparu nodyn briffio i'r Pwyllgor. Awgrymwyd bod angen lledaenu'r arferion gorau o ran datblygu Compactau Cyfranogiad Tenantiaid.

5.4 Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad wedi'i gwblhau, a nododd ei brif ganfyddiadau. Cytunodd y Gweinidog i gylchredeg yr adroddiad llawn a dywedodd hefyd y byddai'n trefnu sesiwn briffio anffurfiol i'r Aelodau.

**Eitem 6: Awdurdodau'r heddlu – Ystyried trefniadau cyllido refeniw:**

**LGH-02-01 (p.3)**

6.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd y Gweinidog ei fod yn nodi'r berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r Swyddfa Gartref ar gyllido'r heddlu. Yn ogystal, eglurai'r berthynas rhwng y cyllid a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol i gynghorau ac i awdurdodau'r heddlu.

6.2 Er nad yw gwasanaethau'r heddlu yn fater sydd wedi'i ddatganoli, teimlai'r Gweinidog ei bod yn holl bwysig cael cyswllt rheolaidd â Llywodraeth y DU er mwyn i'r Cynulliad Cenedlaethol godi ymwybyddiaeth o faterion lleol a dylanwadu ar drefniadau. Cyfarfu â chynrychiolwyr awdurdodau'r heddlu yng Nghymru ym mis Tachwedd a byddai'n cwrdd â nhw eto ar 14 Chwefror.

6.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Mynegodd rhai Aelodau'r farn mai priodol fyddai datganoli'r cyfrifoldeb am yr heddlu i'r Cynulliad Cenedlaethol, o ystyried y berthynas rhwng gwasanaeth yr heddlu a materion diogelwch yn y gymuned. Croesawai'r Pwyllgor gyfarfodydd y Gweinidog gydag awdurdodau heddlu Cymru, a oedd yn ei galluogi i gynrychioli buddiannau'r heddlu gerbron Llywodraeth y DU.
- Nodwyd bod Prif Weinidog Cymru wedi ymrwymo i gadw barn y Pwyllgor yngln â phwy sy'n gyfrifol am faterion cyfiawnder yr ifanc mewn cof y tro nesaf y byddai'n ystyried dyrannu'r portffolios Gweinidogol.
- Yr oedd rhywfaint o bryder pa un a oedd trefniadau cyllido'r heddlu yn caniatáu'n ddigonol ar gyfer y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaeth mewn ardaloedd gwasgaredig eu poblogaeth. Teimlai'r Pwyllgor y byddai'n fwy priodol adlewyrchu'r costau hyn yn y fformwla yn hytrach na thrwy'r Grant Gwledig. Yr oedd yr Aelodau'n awyddus i'r heddlu gael presenoldeb gweledol cryfach mewn ardaloedd gwledig a threfol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n trafod gwasanaeth yr heddlu yng nghefn gwlad gyda awdurdodau heddlu Cymru.

- Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor fod fformwlâu cyllido’r heddlu wedi’u 'rhewi' hyd nes y byddai ffrwyth Papur Gwyrdd y Llywodraeth ar gyllid llywodraeth leol yn hysbys. Teimlai’r Aelodau na ddylai’r moratoriwm presennol ar newidiadau i fformwlâu gael ei ymestyn o gwbl.
- Nodwyd bod dosbarthiad tua 40 y cant o’r holl gyllid wedi’i seilio ar y boblogaeth yn ystod y dydd yn y fformwla. Yr oedd ymwelwyr dydd yn un elfen o’r boblogaeth yn ystod y dydd, ac yr oedd yr Aelodau’n ymwybodol bod i gynnydd dramatig yn nifer y twristiaid diwrnod oblygiadau o ran adnoddau’r heddlu.
- Nododd y Pwyllgor fod yr Heddlu Metropolitan yn derbyn taliad arbennig, yn ychwanegol at y dyraniad a bennir yn y fformwla gyllido, i gydnabod y costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â gwasanaethu Llundain. Dywedodd y Gweinidog y byddai’n ymchwilio i ganfod a fyddai unrhyw elfen o’r cyllid hwn a frig-dorrir yn cael ei drosglwyddo i Heddlu De Cymru gogyfer â'r costau ychwanegol a wynebir gan yr heddlu pan gynhelir Rownd Derfynol Cwpan yr FA yn Stadiwm y Mileniwm.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r berthynas rhwng cyfraddau troseddu a chyfraddau datrys troseddau, a pha un a oedd gogwydd mewn fformwla cyllido a seilir at ddata troseddau yn erbyn heddluoedd megis Dyfed-Powys a Gwent a oedd â chyfraddau datrys troseddau uchel. Teimlid y dylai’r peirianwaith dyrannu wobrwyo heddluoedd effeithiol. Ffactor arall oedd nad yw troseddau sydd heb eu cofnodi yn cael eu hadlewyrchu yn y fformwla ac awgrymwyd bod angen ystyried hyn ymhellach.
- Teimlai’r Pwyllgor fod angen mwy o dryloywder yn y modd y cyllidir awdurdodau’r heddlu. Yn arbennig, teimlai’r Aelodau nad yw trethdalwyr y cynghorau yn gwbl ymwybodol o’r gyfran o’r dreth gyngor a hawlir gan yr heddlu o dan y trefniadau bilio presennol.
- Holodd y Cadeirydd yngln â'r modd yr ymdrinnir o safbwynt cyfrifydda â'r incwm a geir o daliadau a godir gan yr heddlu, yn ogystal â'r refeniw a dderbynnir o ddirwyon. Yr oedd pryder hefyd yngln â chynnal a chadw gorsafoedd yr heddlu; gallent adlewyrchu ar gymunedau lleol os nad ydynt yn cael eu cynnal a’u cadw’n briodol. Ymrwymodd y Gweinidog i godi’r materion hyn yn ei chyfarfod nesaf gydag awdurdodau’r heddlu.

6.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar y trefniadau cyllido refeniw ar gyfer awdurdodau’r heddlu i ystyriaeth. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn yn crynhoi’r gwahanol ffynonellau sy’n darparu cyllid i awdurdodau’r heddlu.

6.5 Cytunodd y Pwyllgor y dylai’r Cadeirydd wahodd Gwasanaethau Tân Cymru i roi cyflwyniad i’r Pwyllgor.

**Eitem 7: Cyflwr Chwarae: LGH-02-01 (p.4)**

7.1 Dywedodd y Gweinidog fod adolygiad o’r ddarpariaeth chwarae mynediad agored wedi’i gynnal fel rhan o gynllun grant Chwarae 2000. O dan y cynllun hwnnw yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi darparu £1 miliwn i wella’r cyfleusterau chwarae i blant mewn cymunedau difreintiedig. Yr oedd yr adolygiad, a fwriadwyd i oleuo’r drafodaeth i’r dyfodol, wedi amlygu nifer o

faterion yr oedd angen eu hystyried er mwyn gwella chwarae. Un o’r argymhellion oedd y dylid datblygu polisi chwarae. Câi tendrau eu gwahodd am y gwaith o lunio fframwaith polisi, a fyddai’n cynnwys ystyried yr argymhellion eraill yn yr adroddiad.

7.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a’r argymhellion. Cydnabyddai’r Aelodau fod chwarae yn rhan annatod o ddatblygiad plant, gyda manteision addysgol, iechyd a chymdeithasol pellgyrhaeddol. O ystyried natur trawsbynciol chwarae, awgrymwyd y dylid dwyn canlyniadau’r astudiaeth i sylw pwyllgorau pwnc perthnasol eraill.
- Croesawai’r Pwyllgor yr argymhelliad yn yr adroddiad i sefydlu grp o blith y pleidiau i gyd i ystyried sut mae datblygu fframwaith cydlynol ar chwarae yng Nghymru. Yn wyneb yr argymhelliad hwn, trafodwyd rhywfaint ar yr angen i gynnig y gwaith o lunio fframwaith polisi ar dendr. Nodwyd mai diben gweithredu felly oedd cyrchu at yr arbenigedd sydd ar gael ym maes chwarae yn y sector gwirfoddol. Dywedodd y Gweinidog y câi’r grp o blith y pleidiau i gyd ei sefydlu ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan mai cyfrifoldeb Jane Hutt oedd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a chynllun grant Chwarae 2000.
- Teimlai’r Aelodau fod cyllido cynaliadwy yn bwysig er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol ymdrin â chwarae mewn ffordd strategol, yn enwedig gan i’r ddarpariaeth fod yn annigonol dros y blynyddoedd diwethaf. Croesawai’r Pwyllgor y ffaith bod y gyllideb ddiweddar yn cynnwys £1 miliwn ar gyfer y Grant Chwarae yn 2001-02, gyda darpariaeth gyllido ar gyfer 2002-03 a 2003-04.
- Trafodwyd rhywfaint ar argymhelliad 6 yn yr adroddiad, sef y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol roi sylw i’r mater o wella ansawdd y ddarpariaeth chwarae mynediad agored. Nodwyd bod yna Godau Ymarfer, Safonau Prydeinig a rheoliadau iechyd a diogelwch a oedd yn berthnasol i ddarpariaeth chwarae mynediad agored, ac yr oedd yna bryder y gallai costau cydymffurfio gael effaith andwyol ar ardaloedd chwarae bach yn arbennig. Yr oedd y Pwyllgor o blaid datblygu safonau ansawdd, ond teimlai na ddylent fod yn orchmynnol.
- Croesawai’r Pwyllgor argymhelliad 7 yn yr adroddiad, yn enwedig y cynnig i ddarparu diffiniadau safonol o dermau sy’n ymwneud â chwarae.
- Teimlai’r Aelodau ei bod yn bwysig bod unrhyw ddarpariaeth chwarae yn cymryd barn y gymuned i ystyriaeth ac yn diwallu anghenion y gymuned. Yr oedd hwn yn fater y dylid rhoi sylw iddo yn y strategaethau cymuned arfaethedig. Teimlai’r Aelodau hefyd ei bod yn bwysig i blant eu bod yn rhydd i ddewis eu chwarae.

7.3 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ‘Cyflwr Chwarae’. Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar yr adroddiad i ystyriaeth a gofynnodd iddi roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor yn rheolaidd am y gwaith i ddatblygu fframwaith polisi ar gyfer chwarae plant.

**Eitem 8: Cyflwyniad gan Ymddiriedolaeth Adfywio’r Meysydd Glo**

8.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Adfywio’r Meysydd Glo i’r cyfarfod a gwahoddodd nhw i roi eu cyflwyniad.

8.2 Eglurodd y Cyng Bob Wellington fod Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo wedi'i sefydlu lai na dwy flynedd yn ôl fel elusen annibynnol sy'n rhoi grantiau. Bu'r galw am brosiectau yng Nghymru yn uchel, gyda rhagor na £3 miliwn wedi'i ddyrannu i nifer o brosiectau sy'n seiliedig yn y gymuned. Amrywiai'r rhain o raglenni cenedlaethol i fynd i'r afael â phroblemau dyled personol i grantiau unigol ar gyfer grwpiau cymuned. Yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu system effeithiol i ddarparu cefnogaeth ac yn rhan o'r cymorth a gâi ei gynnig i grwpiau cymuned yr oedd gweithiwr datblygu sy'n gweithio yng Nghymru.

8.3 Dywedodd Gary Ellis fod yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynllun busnes diwygiedig ar sail profiadau'r ddwy flynedd diwethaf. Yr oedd mwyafrif y cyllid ar gyfer grantiau (85 y cant), gyda rhyw 8 y cant yn cael ei wario ar feithrin gallu mewn cymunedau lleol a'r gweddill ar gostau craidd. Cyflwynwyd y cynllun busnes i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref ac yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gofyn yn ffurfiol am gyllid pellach o £3.6 miliwn am y cyfnod o 2002-03 hyd 2004-05.

8.4 Cafwyd cyflwyniadau byr hefyd gan bobl ifanc a oedd wedi elwa o gyllid a roddwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Teimlai William, gwirfoddolwr, i'r grant a dderbyniwyd fod yn amhrisiadwy i'r YMCA. Dywedodd ei fod wedi gwella ei sgiliau ac wedi caniatáu iddo gwblhau cwrs cyfrifiaduron achrededig ac astudio tuag at dystysgrif mewn gwaith ieuenctid. Teimlai Kayleigh, a oedd hefyd yn mynd i'r YMCA, ei bod wedi ennill sgiliau cyfrifiadurol pwysig o ganlyniad i'r prosiect a bod lefel gyffredinol ei haddysg wedi gwella. Yn olaf, dywedodd Stuart ei fod wedi cael cymorth gan Ymddiriedolaeth Busnes Tredegar, a gefnogir gan Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, a bod hynny wedi ei alluogi i sefydlu ei fusnes ei hun.

8.5 Dywedodd Alan Wallace wrth y Pwyllgor mai nid gwaith sy'n cael ei arwain gan y galw'n unig yw gwaith Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a'i fod yn cael ei sianelu a'i strwythuro er mwyn cwrdd ag ystod o flaenoriaethau bras. Mae gwaith yr Ymddiriedolaeth ar allgáu ariannol wedi rhoi blaenoriaeth uchel i undebau credyd, menter yn y gymuned a chyngor yngln â dyledion a materion lles. Yr oedd y gwaith hwn yn gydnaws â chysyniad 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' a Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 1. Cymeradwyodd Alan Wallace hefyd y ddogfen ymgynghorol 'Ymestyn Hawliau', gyda'i ffocws ar bobl ifanc a phartneriaeth. Teimlai fod hyn yn gyfystyr â gwaith yr Ymddiriedolaeth.

8.6 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â gallu Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo i gynorthwyo gyda'r sialensiau a wynebir yn sgîl y colli swyddi arfaethedig yn y diwydiant dur. Dywedodd Alan Wallace fod yr Ymddiriedolaeth wedi'i chyfyngu i ardaloedd y meysydd glo, er bod yna orgyffwrdd sylweddol gyda'r ardaloedd dur. Byddai'r Ymddiriedolaeth yn ceisio cyfarfod gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i drafod pa gamau ymyrryd penodol y gallai eu cymryd ar lefel leol.
- Trafodwyd rhywfaint ar y peirianwaith cyrchu at grantiau. Dywedodd y Cyng Bob Wellington fod y ffurflenni cais ar gael yn hwylus. Câi gweithiwr datblygu ei neilltuo i'r bartneriaeth leol i

helpu i ddatblygu’r cais. Yn dilyn y broses asesu, câi’r penderfyniad terfynol ar y cais ei wneud gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn Doncaster. Byddai’r Cadeirydd yn troi at yr Ymddiriedolwr dros Gymru am gyngor yngln â cheisiadau o Gymru.

- Yr oedd rhywfaint o bryder bod cyn lleied o grantiau wedi’u dyfarnu i hen ardaloedd meysydd glo Gogledd Cymru. Dywedodd Alan Wallace fod hyn yn rhannol yn adlewyrchu’r nifer is o geisiadau o Ogledd Cymru, er y teimlai fod yna le i’r Ymddiriedolaeth fod yn fwy gweithgar yn yr ardal. Yr oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i sut y gallai’r Ymddiriedolaeth sicrhau gwell cynrychiolaeth yng Ngogledd Cymru, er y teimlai ei bod yn annhebygol y gellid cyfiawnhau presenoldeb parhaol yno.

8.7 Diolchodd y Cadeirydd i Ymddiriedolaeth Adfywio’r Meysydd Glo ar ran y Pwyllgor a rhoddodd ganmoliaeth arbennig i’r bobl ifanc am eu cyflwyniad.

**Eitem 9: Cofnodion cyfarfod 24 Ionawr: LGH-01-01 (min)**

9.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 24 Ionawr.

9.2 Codwyd y pwyntiau canlynol ar faterion a oedd yn codi o’r cofnodion:

- Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai’n ysgrifennu at y Cadeirydd yn nodi awgrymiadau yngln â’r materion a gâi sylw yn yr adolygiad polisi y bwriedir ei gynnal ar adfywio cymunedau.
- Ymrwymodd y Gweinidog i roi adroddiad gwaith i’r Pwyllgor ar ei chynigion yngln â thai fforddiadwy yng nghefn gwlad.
- Dywedodd y Gweinidog mai cyfrifoldeb Cyngor Sir y Fflint yw rhoi sylw i’r materion a godwyd yn adroddiad diweddar yr Archwiliwr Dosbarth, a chadarnhaodd nad oedd wedi gwneud unrhyw ddatganiadau cyhoeddus mewn perthynas â'r adroddiad.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 2001**

**Atodiad**

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU O GYFARFOD 7 CHWEFROR**

1. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y trefniadau cyhoeddusrwydd ar gyfer y gwasanaeth Gofal a Thrwsio yng nghyfarfod 28 Chwefror (paragraff 3.6).

2. Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor yn rheolaidd am hynt yr adolygiad i gyllid craidd mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio ym maes digartrefedd (paragraff 4.3).

3. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn briffio ar Gompactau Cyfranogiad Tenantiaid (paragraff 5.3).

4. Cytunodd y Gweinidog i gylchredeg adroddiad yr Athro Alan Murie ar farn tenantiaid yngln â thai rhent cyhoeddus a dywedodd y byddai'n trefnu sesiwn briffio anffurfiol i'r Aelodau (paragraff 5.4).

5. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ymchwilio i ganfod a fyddai unrhyw elfen o'r cyllid a frig-dorrir ar gyfer yr Heddlu Metropolitan yn cael ei drosglwyddo i Heddlu De Cymru gogyfer â'r costau ychwanegol a wynebir gan yr heddlu pan gynhelir Rownd Derfynol Cwpan yr FA yn Stadiwm y Mileniwm (paragraff 6.3).

6. Ymrwymodd y Gweinidog i godi'r modd yr ymdrinnir o safbwynt cyfrifydda â'r incwm a geir o daliadau a godir gan yr heddlu, yn ogystal â'r refeniw a dderbynnir o ddirwyon, yn ei chyfarfod nesaf gydag awdurdodau'r heddlu (paragraff 6.3).

7. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn yn crynhoi'r gwahanol ffynonellau sy'n darparu cyllid i awdurdodau'r heddlu (paragraff 6.4).

8. Y Cadeirydd i wahodd Gwasanaethau Tân Cymru i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor (paragraff 6.5).

9. Y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd am y gwaith i ddatblygu fframwaith polisi ar gyfer chwarae plant (paragraff 7.3).

10. Ymrwymodd y Gweinidog i roi adroddiad gwaith i'r Pwyllgor ar ei chynigion yngln â thai fforddiadwy yng nghefn gwlad (paragraff 9.2).